



## Cyfres Taith Pearl Izumi yw prif atyniad Gŵyl Seiclo Aberystwyth

Ddydd Gwener, 23ain Mai daw cyfres rasmus seiclo fwyaf blaenllaw Prydain, sef Cyfres Taith Pearl Izumi, yn ôl i Aberystwyth am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, a hyn fydd prif atyniad penwythnos llawn seiclo yn Aberystwyth.

### KEY INFORMATION

#### DATE

**23<sup>rd</sup> May 2014**

#### MORE INFORMATION

**[www.abercyclefest.com](http://www.abercyclefest.com)**

Bydd prif dimau proffesiynol Prydain yn teithio i Aberystwyth ddydd Gwener, yn cynnwys y pencampwyr Olympaidd Ed Clancy, Stephen Burke, cyn-bencampwr y byd, Andy Tennant yn ogystal â'r reidiwr proffesiynol lleol, Gruff Lewis.

Ers ei sefydlu yn 2011, mae'r digwyddiad wedi tyfu o ran ei faint a'i boblogrwydd ac mae bellach yn un o brif ddigwyddiadau calendr chwaraeon Aberystwyth. Cynhelir digwyddiadau atodol o 2pm ymlaen, a gobeithiwn weld cymaint â phosib o ysgolion lleol yn cymryd rhan gan fod hwn yn gyfle blynyddol i rasio ar heolydd di-draffig, yng nghanol tref Aberystwyth.

#### **14.00 RAS 1 (1 cylchdro)**

Blwyddyn 3 a 4 Bechgyn  
Blwyddyn 3 a 4 Merched

#### **15.30 RAS 6 (3 chylchdro)**

Blwyddyn 10, 11 a 12 Bechgyn, Beic Ffordd  
Blwyddyn 10, 11 a 12 Merched Beic Ffordd

#### **14.15 RAS 2 (2 gylchdro)**

Blwyddyn 5 a 6 Bechgyn  
Blwyddyn 5 a 6 Merched

#### **15.50 Ras 7 (15mun + 1 cylchdro)**

Y Dref vs Y Coleg, Ras Hwyl Oedolion

#### **14.30 RAS 3 (2 gylchdro)**

Blwyddyn 7, 8 a 9 Bechgyn Beic Mynydd  
Blwyddyn 7, 8 a 9 Merched Beic Mynydd

#### **16.10 Ras 8 (30 mun + 1 lap)**

Criterium Glan Môr Aber  
(4ydd Cat) Rhanbarthol C+

#### **14.50 RAS 4 (2 gylchdro)**

Blwyddyn 10, 11 a 12 Bechgyn Beic Mynydd  
Blwyddyn 10, 11 a 12 Merched Beic Mynydd

#### **16.50 Ras 9 (45mun + 2 gylchdro)**

Criterium Glan Môr Aber (2/3 Cat)  
Rhanbarthol B

#### **15.10 RAS 5 (3 chylchdro)**

Blwyddyn 7, 8 a 9 Bechgyn Beic Ffordd  
Blwyddyn 7, 8 a 9 Merched Beic Ffordd

#### **18.00 Cyfres Taith Pearl Izumi -**

Cyflwyno'r Cystadleuwyr

#### **19.00 Ras 10 (1awr + 5 cylchdro)**

Cyfres Taith Pearl Izumi - Dechrau'r Ras

Er mwyn lleihau'r gwaith gweinyddol wrth gofrestru disgyblion, rydym wedi sefydlu ffurflen gofrestru ar-lein. Bydd hyn yn sicrhau y cofrestrir pob disgybl yn eich ysgol yn gywir a'u bod yn cael eu rhif rasio cyn y digwyddiad.

Isod, gweler dolen at ffurflen gofrestru ysgolion, a 3 cham cwblhau'r cofrestru:

1. Bydd rhaid i bob disgybl sy'n dymuno cymryd rhan lenwi'r ffurflen caniatâd rhieni (atodwyd) er mwyn cyflawni gofynion prosesau Seiclo Prydeinig, a thalu ffi cystadlu o £2.50, sydd wedi'i noddi gan Ceredigion Actif. Gofynnir i Ysgolion a Swyddogion PIE i gylchredeg, a chasglu'r ffurflenni a'r ffioedd.

2. Dylid wedyn nodi'r wybodaeth a geir ar y ffurflenni caniatâd rhieni (tudalen 3) ar ein ffurflen ar-lein (<http://www.abercyclefest.com/schools-registration-headteacher>)

3 diwrnod cyn y digwyddiad, cesglir ffurflenni dechrau, a dyrennir rhifau ras, a'u dosbarthu i'r ysgolion. Codir anfoneb er mwyn casglu'r ffioedd cystadlu, yn seiliedig ar nifer y reidwyr a gofrestrwyd.

3. Uchafswm o 60 reidiwr a fydd ymhob Ras, a gofynnwn i ysgolion gofio hyn wrth gofrestru disgyblion.

Mae trefnwyr Gŵyl Seiclo Aberystwyth yn eich annog i wneud y mwyaf o benwythnos Gŵyl y Banc, am fod ganddynt benwythnos llawn dop o weithgareddau, a bydd ras beicio mynydd lawr-llethr yn cael ei chynnal ar Graig Glais ddydd Sadwrn cyn Sportif Gorllewin Gwyllt Cymru Continental ddydd Sul, a fydd yn rhoi dewis o dri llwybr trwy gefn gwlad odidog Ceredigion.

I gael rhagor o wybodaeth am Ŵyl Seiclo Aberystwyth, ac amserlen pob ras, ewch i'w gwefan [www.abercyclefest.com](http://www.abercyclefest.com)

Trefnir digwyddiadau pellach cyn gwyliau'r haf, i gynorthwyo i greu ffordd i reidwyr ifainc ymuno â chlybiau lleol. Caiff rhagor o wybodaeth ei darparu cyn bo hir.

Yn gywir,

## Ffurflen Caniatâd Rhieni

Enw'r Reidiwr:

Dyddiad Geni:

## Rhiant neu Warcheidwad

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Fel rhiant neu warcheidwad y reidiwr uchod yr wyf:

a) Yn deall ac yn cytuno fod fy mab/merch yn cystadlu mewn digwyddiadau a hyrwyddwyd o dan reolau a rheoliadau'r Ffederasiwn yn gyfan gwbl ar ei risg ef/hi ei hun. Rwyf wedi ystyried ac yn deall natur digwyddiadau o'r fath ac wedi'u trafod â'm mab/merch. Rwyf yn fodlon bod fy mab/merch yn ddigon cyfrifol a chymwys i gymryd cyfrifoldeb llawn am ei d/diogelwch ei hun wrth gystadlu o dan reoliadau'r Ffederasiwn Seiclo Prydeinig.

b) Yn deall bod gan gystadleuwyr dros 16 blwydd oed yr hawl i gystadlu ar ffordd gyhoeddus ac felly bod yn rhaid iddynt gymryd cyfrifoldeb llawn am eu diogelwch eu hunain mewn perthynas â thraffig arall. Rwyf yn deall ac wedi pwysleisio wrth fy mab/merch mai pwrpas trefnwyr mewn digwyddiadau o'r fath yw nodi'r cyfeiriad y dylai'r reidiwr ei ddilyn yn unig a bod y cyfrifoldeb am ddiogelwch wrth drafod corneli, troeon a pheryglon eraill yn nwylo'r reidiwr yn unig.

c) Yn deall ymhellach ac wedi creu pwysleisio wrth fy mab / merch fod yn rhaid i bawb sy'n cystadlu mewn digwyddiadau ar y ffordd agored gadw at gyfraith y wlad sy'n ymwneud â theithio ar y ffyrdd.

d) Yn cytuno y bydd fy mab/merch yn cystadlu mewn digwyddiadau o'r fath heb fod unrhyw atebolrwydd ar ran yr hyrwyddwr, y clwb sy'n hyrwyddo, Ffederasiwn Seiclo Prydeinig, neu unrhyw glwb neu fudiad sydd yn gysylltiedig neu eu swyddogion neu eu haelodau mewn perthynas ag anaf, colled neu ddifrod iddo/iddi, ar yr amod nad yw hyn yn eithrio atebolrwydd unrhyw barti o'r fath ar gyfer marwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o esgeulustod y parti hwnnw.

e) Yn cadarnhau nad oes gan fy mab/merch unrhyw anabledd neu gyflwr meddygol, yn gorfforol neu'n feddyliol, a allai effeithio ar ei allu/gallu i reidio'n ddiogel fel seiclwr mewn ras. Rwyf yn deall bod yn rhaid imi hysbysu ysgrifennydd cyffredinol y Ffederasiwn ar unwaith os ar unrhyw adeg y bydd fy mab/merch yn ennyn anabledd neu gyflwr meddygol, yn gorfforol neu'n feddyliol, a allai effeithio ar ei allu/gallu i reidio'n ddiogel fel seiclwr mewn ras.

Arwyddwyd (Rhiant neu Warcheidwad):

Dyddiad: